| **GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG** | |
|---|---|
| **160 - Rheoliadau Rheoliad (EC) rhif 1370/2007 (Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus mewn Trafnidiaeth) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**<br>*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 16 Mawrth 2020* | |
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Bydd |
| Gweithdrefn: | Negyddol arfaethedig |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | 24 Mawrth 2020 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 21 Ebrill 2020 |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | 6 Mai 2020 |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 10 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Heb ei argymell i'w uwchraddio |
| Gweithdrefn | Gwneud Negyddol |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Sylwadau**

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Lywodraeth y DU ar 11 Mai 2020 yn unol ag adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae Rheoliad 1370/2007 yn Rheoliad UE sy'n uniongyrchol berthnasol ac sy'n nodi'r amodau y caiff “awdurdodau cymwys” ddyfarnu contractau Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus (PSO) i weithredwyr bysiau ac i gwmnïau gweithredu trenau (TOCs) y tu allan i'r rheolau caffael a chymorth gwladwriaethol cyffredinol sy'n berthnasol o dan gyfraith yr UE a’r gyfraith ddomestig.

Mae Rheoliad (EC) Rhif 1370/2007 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 23 Hydref 2007 ar wasanaethau cludo teithwyr cyhoeddus ar reilffordd ac ar y ffordd (**Rheoliad yr UE**) yn cynnwys nifer o ddarpariaethau a fyddai'n ddiffygiol pan ddaw Rheoliad yr UE yn gyfraith yr UE.

Pwrpas y gwelliannau hyn yw cywiro'r diffygion hyn. Er enghraifft:

- mae cyfeiriad at Reoliad yr UE yn gweithredu “yn unol â rheolau cyfraith y Gymuned” yn cael ei ddileu,
- diffinnir “awdurdod cymwys” trwy gyfeirio at “awdurdod cyhoeddus” yn hytrach nag “awdurdod cyhoeddus Aelod-wladwriaeth”,
- bydd cyfeiriad at symiau mewn ewros yn newid i gyfeiriad at symiau mewn punnoedd Prydain Fawr.

Mae’r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â’r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 12 Mai 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Nodwn, yn benodol, nad yw'r Rheoliadau hyn yn delio â chyfeiriadau at gymorth gwladwriaethol yn Rheoliad yr UE, ac fe ymdrinnir â'r cyfeiriadau hynny ar wahân.

Nodwn hefyd y cafodd drafft o'r Rheoliadau hyn ei osod gerbron Senedd y DU ar gyfer ei sifftio ar 16 Mawrth 2020, ond ni osododd Llywodraeth Cymru'r datganiad ysgrifenedig gerbron y Senedd tan 12 Mai 2020. O dan Reol Sefydlog 30C, dylid gosod datganiadau ysgrifenedig gerbron y Senedd fel arfer o fewn tri diwrnod gwaith ar ôl eu gosod gerbron Senedd y DU.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith ac i ba raddau y byddai'r Rheoliadau hyn yn deddfu polisi newydd mewn meysydd datganoledig.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.